## Sunday 24th of August 2025
## + Saint Bartholomew the Apostle

### The collect of the day

Almighty and everlasting God, you gave to your apostle Bartholomew grace truly to believe and to preach your word : grant that your Church may love that word which he believed and may faithfully preach and receive the same; through Jesus Christ our Lord, who is alive and reigns with you in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

### The reading from Acts
(5.12-16)

Many signs and wonders were done among the people through the apostles. And they were all together in Solomon’s Portico. None of the rest dared to join them, but the people held them in high esteem. Yet more than ever believers were added to the Lord, great numbers of both men and women, so that they even carried out the sick into the streets, and laid them on cots and mats, in order that Peter’s shadow might fall on some of them as he came by.

A great number of people would also gather from the towns around Jerusalem, bringing the sick and those tormented by unclean spirits, and they were all cured.

### The Psalm
(145.1-7)

I will exalt you, O / God my / King:  and bless your / name for / ever and / ever. Every day / will I / bless you:  and praise your / name for / ever and / ever. Great is the Lord and highly / to be / praised:  his greatness is be/yond all / searching / out.

One generation shall praise your works / to an/other:  and de/clare your / mighty / acts. They shall speak of the majesty / of your / glory:  and I will tell of / all your / wonderful / deeds.

They shall speak of the might of your / marvellous / acts:  and I will / also / tell of your / greatness. They shall pour forth the story of your a/bundant / kindness:  and joyfully / sing / of your / righteousness.

### The reading from 1 Corinthians
(4.9-15)

I think that God has exhibited us apostles as last of all, as though sentenced to death, because we have become a spectacle to the world, to angels and to mortals. We are fools for the sake of Christ, but you are wise in Christ. We are weak, but you are strong. You are held in honour, but we in disrepute. To the present hour we are hungry and thirsty, we are poorly clothed and beaten and homeless, and we grow weary from the work of our own hands.

When reviled, we bless; when persecuted, we endure; when slandered, we speak kindly. We have become like the rubbish of the world, the dregs of all things, to this very day.

I am not writing this to make you ashamed, but to admonish you as my beloved children. For though you might have ten thousand guardians in Christ, you do not have many fathers. Indeed, in Christ Jesus I became your father through the gospel.

### The reading from the Gospel according to Saint Luke
(22.24-30)

A dispute also arose among the twelve as to which one of them was to be regarded as the greatest. But he said to them, ‘The kings of the Gentiles lord it over them; and those in authority over them are called benefactors. But not so with you; rather the greatest among you must become like the youngest, and the leader like one who serves. For who is greater, the one who is at the table or the one who serves? Is it not the one at the table? But I am among you as one who serves.

‘You are those who have stood by me in my trials; and I confer on you, just as my Father has conferred on me, a kingdom, so that you may eat and drink at my table in my kingdom, and you will sit on thrones judging the twelve tribes of Israel.

### The collect after communion

Lord God, the source of truth and love, keep us faithful to the apostles’ teaching and fellowship, united in prayer and the breaking of bread, and one in joy and simplicity of heart, in Jesus Christ our Lord. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011.  Collects and Post Communion Prayers from the book New Calendar and the Collects.  Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from The New Revised Standard Version (Anglicized Edition), copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of  the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

## Dydd Sul 24ain Awst 2025
## + Sant Bartholomeus; Apostol

### Colect y dydd

Hollalluog a thragwyddol Dduw a roddaist i'th apostol Bartholomeus ras i wir gredu a phregethu dy air, caniatâ i'th Eglwys garu'r gair hwnnw a gredodd ef ac iddi ei bregethu a'i dderbyn yn ffyddlon; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sydd yn fyw ac yn teyrnasu gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

### Darlleniad o Actau
(5.12-16)

Trwy ddwylo'r apostolion gwnaed arwyddion a rhyfeddodau lawer ymhlith y bobl. Yr oeddent bawb yn arfer dod ynghyd yng Nghloestr Solomon. Nid oedd neb arall yn meiddio ymlynu wrthynt, ond yr oedd y bobl yn eu mawrygu, ac yr oedd credinwyr yn cael eu chwanegu fwyfwy at yr Arglwydd, luoedd o wŷr a gwragedd. Yn wir, yr oeddent hyd yn oed yn dod â'r cleifion allan i'r heolydd, a'u gosod ar welyau a matresi, fel pan fyddai Pedr yn mynd heibio y câi ei gysgod o leiaf ddisgyn ar ambell un ohonynt.

Byddai'r dyrfa'n ymgynnull hefyd o'r trefi o amgylch Jerwsalem, gan ddod â chleifion a rhai oedd yn cael eu blino gan ysbrydion aflan; ac yr oeddent yn cael eu hiacháu bob un.

### Y Salm
(145.1-7)

Dyrchafaf di, fy Nuw, O Frenin, a bendithiaf dy enw byth bythoedd. Bob dydd bendithiaf di, a moliannu dy enw byth bythoedd. Mawr yw'r ARGLWYDD, a theilwng iawn o fawl, ac y mae ei fawredd yn anchwiliadwy.

Molianna'r naill genhedlaeth dy waith wrth y llall, a mynegi dy weithredoedd nerthol. Am ysblander gogoneddus dy fawredd y dywedant, a myfyrio ar dy ryfeddodau.

Cyhoeddant rym dy weithredoedd ofnadwy, ac adrodd am dy fawredd. Dygant i gof dy ddaioni helaeth, a chanu am dy gyfiawnder.

### Darlleniad o 1 Corinthiaid
(4.9-15)

Oherwydd yr wyf yn tybio bod Duw wedi rhoi i ni'r apostolion y lle olaf, fel rhai wedi eu condemnio i farw yn yr arena, gan ein bod wedi dod yn sioe i'r cyfanfyd, i angylion ac i feidrolion. Ni yn ffyliaid er mwyn Crist, chwithau'n rhai call yng Nghrist! Ni yn wan, chwithau'n gryf! Chwi'n llawn anrhydedd, ninnau heb ddim parch! Hyd yr awr hon y mae arnom newyn a syched, yr ydym yn noeth, yn cael ein cernodio, yn ddigartref, yn blino gan lafur ein dwylo ein hunain.

Ein hateb i'r difenwi sydd arnom yw bendithio; i'r erlid, goddef; i'r enllib, geiriau caredig. Fe'n gwnaethpwyd yn garthion y byd, yn olchion pawb, hyd yn awr.

Nid i godi cywilydd arnoch yr wyf yn ysgrifennu hyn, ond i'ch rhybuddio, fel plant annwyl i mi. Pe byddai gennych ddeng mil o hyfforddwyr yng Nghrist, eto ni fyddai gennych fwy nag un tad, oherwydd yng Nghrist Iesu myfi a ddeuthum yn dad i chwi drwy'r Efengyl.

### Gwrandewch Efengyl Crist
### yn ôl Sant Luc
(22.24-30)

Cododd cweryl hefyd yn eu plith: prun ohonynt oedd i'w gyfrif y mwyaf? Meddai ef wrthynt, "Y mae brenhinoedd y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'r rhai sydd ag awdurdod drostynt yn cael eu galw yn gymwynaswyr. Ond peidiwch chwi â gwneud felly. Yn hytrach, bydded y mwyaf yn eich plith fel yr ieuengaf, a'r arweinydd fel un sy'n gweini. Pwy sydd fwyaf, yr un sy'n eistedd wrth y bwrdd neu'r un sy'n gweini? Onid yr un sy'n eistedd? Ond yr wyf fi yn eich plith fel un sy'n gweini. Chwi yw'r rhai sydd wedi dal gyda mi trwy gydol fy nhreialon. Ac fel y cyflwynodd fy Nhad deyrnas i mi, yr wyf finnau yn cyflwyno un i chwi; cewch fwyta ac yfed wrth fy mwrdd i yn fy nheyrnas i, ac eistedd ar orseddau gan farnu deuddeg llwyth Israel.

### Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Arglwydd Dduw, ffynhonnell gwirionedd a chariad, cadw ni'n ffyddlon i ddysgeidiaeth a chymdeithas yr apostolion, wedi ein huno mewn gweddi a thorri bara, ac yn un mewn llawenydd a symlrwydd calon, yn Iesu Grist ein Harglwydd.



*Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru.* Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys ng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.